cymorth cristnogol



# Cynllun Gwers 2
# Eiriolaeth ddewr a gweithredu proffwydol

## Pwrpas:

Bydd disgyblion yn deall eu rôl wrth geisio sicrhau cyfiawnder hinsawdd.

## Canlyniadau'r wers:

- Mae disgyblion yn deall beth mae dylanwadu ar eraill yn ei olygu a gallant gynnig ffyrdd creadigol o ddylanwadu eraill.
- Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i geisio cyflawni cyfiawnder hinsawdd.
- Gall y disgyblion fynegi pam eu bod yn poeni am yr hinsawdd a chael cyfle i ystyried sut maen nhw'n gallu cyfleu'r anghyfiawnder sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

# Nodiadau Athrawon:

Mae'r wers Llythyrau Dros Y Greadigaeth hon yn canolbwyntio ar y syniad a'r arferiad o ddefnyddio ein lleisiau a'n gweithredoedd ar gyfer helpu newid y sefyllfa ynglŷn â chyfiawnder hinsawdd.

Yn ystod y wers, mae'r disgyblion yn archwilio'r rheswm dros bwysigrwydd eu lleisiau ac yn dechrau ystyried y pwysigrwydd o ddefnyddio eu llais i alw am weithredu a newid cadarnhaol. Trwy'r gweithgareddau, bydd disgyblion yn myfyrio ar bŵer a phwysigrwydd eu llais, y dewrder i siarad dros y rhai sy'n cael eu hanwybyddu, a'r syniad o weithredu gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghyfiawnder.

# Gweithgaredd Myfyrio Cychwynnol
## Sut ydw i'n gysylltiedig?

### Pwrpas:


Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu'r disgyblion i gydnabod sut maent wedi'u cysylltu â phobl eraill yn eu bywydau beunyddiol. Yn ogystal, bydd y gweithgaredd yn eu helpu i gydnabod sut y maent wedi'u heffeithio gan bobl eraill o gwmpas y byd.

1. **Dylai pob disgybl gymryd delwedd person gwag. Yn annibynnol, dylent ddechrau llenwi'r person gyda phethau sy'n eu gwneud nhw pwy ydyn nhw.**

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol os oes angen:

- **Pwy yw'r bobl agosaf ataf?**
- **Sut ydw i'n treulio fy amser?**
- **Ble ydw i'n treulio fy amser?**
- **Ar beth ydw i'n gwario fy arian?**
- **Pa fath o berson ydw i eisiau bod?**
- **Beth ydw i eisiau ei wneud?**

2. **Gwahoddwch y disgyblion i feddwl am y ffyrdd y maent yn gysylltiedig â, ac yn cael eu heffeithio gan, bobl eraill – trwy eu teuluoedd, cymunedau lleol, fel gwlad ac â phobl mewn lleoedd eraill yn y byd. Dylent ysgrifennu eu syniadau y tu allan i'w person.**



# Arddangosiad Gweledol
## Clorian Cyfiawnder

### Pwrpas:

Bydd disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd meddwl ar y cyd a gweithio i greu newid.

### Nodiadau Athrawon:

Gall y syniad o drawsnewid cymdeithas ymddangos yn ofnus ac yn amhosibl i bobl ifanc. Bwriad y gweithgaredd hwn yw helpu atgyfnerthu'r syniad (er y gallem deimlo'n ddibwys yn wyneb materion mawr) o'r posibilrwydd i greu newid pan gydweithiwn a defnyddiwn ein lleisiau!

I wneud yr arddangosiad gweledol hwn bydd angen clorian o ryw fath, un gwrthrych trwm, a set o wrthrychau/phwysau ysgafnach (sy'n drymach na'r gwrthrych trwm wrth eu rhoi at ei gilydd).

1. **Rhowch y pwysau neu'r gwrthrych trwm ar un ochr o'r glorian. Mae'r pwysau hwn yn cynrychioli'r anghyfiawnder yr ydym yn ceisio ei newid.**
2. **Dosbarthwch y pwysau ysgafnach i'r disgyblion.**
3. **Gwahoddwch y disgyblion i ddod ymlaen fesul un, ac i roi eu pwysau ar y glorian. Os nad yw eu pwysau yn blaenu'r cydbwysedd, gofynnwch iddynt ddychwelyd i'w sedd a mynd â'u pwysau gyda nhw. Parhewch i ofyn am wirfoddolwyr nes bod rhywun yn awgrymu ychwanegu eu pwysau at ei gilydd (os nad oes unrhyw un yn gwneud y cysylltiad hwn, ar ôl cwpl o ymdrechion gallwch ofyn cwestiwn i'w helpu). Ar ôl iddynt ychwanegu eu pwysau at ei gilydd i gael y cydbwysedd ar y glorian - trafodwch gyda'r disgyblion sut y gall gwneud newid yn y byd fod fel symud y glorian, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i wneud newid cadarnhaol.**

### Os nad oes pwysau a chlorian ar gael?

Casglwch ddigon o ddarnau arian 1c a 2c i'w dosbarthu ymhlith y disgyblion. Gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n mynd i'w brynu gyda'u 1c neu 2c.

Nodwch y ffaith na all 1c neu 2c ar ei ben ei hun brynu llawer, ond os ydym ni i gyd yn rhoi ein swm bach o arian at ei gilydd mae gennym rywbeth sy'n fwy na'r darnau arian unigol. Pan rydyn ni am newid y byd, mae'n hawdd meddwl amdanon ni'n hunain fel darn arian 1c a gadael ein lleisiau a'n gweithredoedd yn dawel oherwydd nad ydyn ni'n gallu ei wneud ar ein pennau ein hunain. Fel y darnau arian, wrth weithio gyda'n gilydd, mae gwerth a phŵer ein lleisiau yn ddiderfyn.

# Gweithgaredd 1
## Dyfyniadau am newid

### Pwrpas:

Mae disgyblion yn ystyried galwadau hanesyddol i weithredu a newid.

1. **Darllenwch neu arddangoswch y set o ddyfyniadau gyferbyn, a thrafodwch wrth ddefnyddio'r cwestiynau isod:**

- **Beth ydych chi'n meddwl mae'r dyfyniad yn ei olygu?**
- **Ydych chi'n cytuno ag unrhyw un o'r dyfyniadau?**
  **Pam?**
- **Ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r dyfyniadau?**
  **Pam?**
- **Sut mae'r dyfyniadau'n gwneud ichi deimlo?**

**'Rydych chi'n gwybod fod rhywbeth o'i le pan fydd plentyn yn codi llais.' –** *Autumn Peltier*

**'Os ydych chi wedi dod yma i fy helpu rydych yn gwastraffu eich amser, os ydych chi wedi dod oherwydd bod eich rhyddhad wedi'i rwymo ynghyd â fy un i, gadewch inni weithio gyda'n gilydd.' –** *Lilla Watson*

Mae rhyddhad yn golygu rhyddhau pobl rhag gormes a chael rhyddid i feddwl ac ymddwyn heb ormes / erledigaeth.

**'Mae'r amser bob amser yn iawn, i wneud yr hyn sy'n iawn.' –** *Martin Luther King Jr.*

**'Ni all tywyllwch ddileu tywyllwch, dim ond goleuni all wneud hynny. Ni all casineb ddileu casineb, dim ond cariad all wneud hynny.' –** *Martin Luther King Jr.*

**'Mae pob breuddwyd fawr yn dechrau gyda breuddwydiwr. Cofiwch, mae gennych chi'r cryfder, yr amynedd a'r angerdd i gyrraedd y sêr er mwyn newid y byd.' –** *Harriet Tubman*

**'Ni ddaw newid os arhoswn am ryw berson arall neu ryw amser arall. Ni yw'r rhai rydyn ni wedi bod yn aros amdanynt. Ni yw'r newid rydyn ni'n ei geisio.' –** *Barack Obama*

# Gweithgaredd 2
# Beth fyddech chi'n ei ddweud?

## Pwrpas:

Mae disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd eiriolaeth a mynegi barn.

1. **Gwyliwch y fideo o Autumn Peltier**

2. **Trafodwch pan oedd Autumn Peltier yn 12 oed cafodd gyfle i herio Prif Weinidog Canada ar faterion cyfiawnder hinsawdd. Nid oedd gan ei chymuned fynediad at ddŵr glân. Er y dywedwyd wrthi am beidio â mynegi barn, dewisodd fod yn eiriolwraig dewr a defnyddiodd ei llais er mwyn gwneud hynny.**

3. **Gwahoddwch ddisgyblion i ystyried y cwestiwn: Pe byddech chi'n cael cyfle i siarad â Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig am gyfiawnder hinsawdd, beth fyddech chi'n dweud?**

4. **Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu meddyliau gan ddefnyddio'r cwestiynau isod fel awgrymiadau.**

- **Beth yw cyfiawnder hinsawdd?**
- **Pam fod cyfiawnder hinsawdd yn bwysig?**
- **Beth hoffech chi ei weld yn digwydd o gwmpas y mater o gyfiawnder hinsawdd?**

5. **Fel gweithgaredd dilynol dewisol, gwahoddwch ychydig o ddisgyblion i rannu eu hymatebion o flaen y dosbarth am tua un munud. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis rhai o'r lleisiau tawelach yn yr ystafell, gan atgoffa'r disgyblion fod pob un o'n lleisiau o bwys - nid yn unig y rhai mwyaf cegog. Ar ôl i bob disgybl rannu, cynigwch adborth cadarnhaol ar rywbeth a wnaethant yn dda. Gofynnwch am wirfoddolwyr o'r dosbarth i gynnig rhywbeth yr oeddent yn ei hoffi am yr hyn a ddywedent, neu sut y gwnaethant ei ddweud.**

## Nodiadau i'w trafod:

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar **Eiriolaeth**. Mae eiriolaeth yn ymwneud â sut rydyn ni'n siarad dros bobl sydd ddim fel arfer yn cael sylw. Gallwn ddefnyddio ein lleisiau i ddylanwadu ar bobl sydd â phŵer i wneud penderfyniadau penodol. Gallwn hefyd fod yn eiriolwyr trwy ddylanwadu ar eraill yn ein cymunedau, fel ein teuluoedd, ffrindiau a chymdogion. Gellir galw hyn yn 'adeiladu grym'. Adeiladu grym yw pan fyddwn yn casglu mwy o bobl sy'n poeni am y mater a defnyddio eu lleisiau a'u dylanwad i wneud newid cadarnhaol.

**Cofiwch: Weithiau, gallwn deimlo ychydig yn ofnus wrth feddwl am newid y byd. Ond, wrth ddechrau gyda'r byd o'u cwmpas, mae gan bob unigolyn y cyfle, a'r gallu, i newid y byd.**

# Gweithgaredd 3
## Mapio Dylanwad

### Pwrpas:

Mae disgyblion yn deall beth yw dylanwad ac yn edrych ar rai o'r ffyrdd y gallant ddylanwadu eu llywodraeth leol a chenedlaethol.

1. **Cyflwyno'r cysyniad o beth yw dylanwad a rhai o'r ffyrdd gallwn ddylanwadu. Esboniwch fod yn y gweithgaredd hwn yn gofyn iddyn nhw fapio'r bobl a'r sefydliadau gallant ddylanwadu.**

2. **2. Gwahoddwch fyfyrwyr i dynnu cylch mawr ar ddarn o bapur, yna i dynnu llun eu hunain yng nghanol y cylch. Gan feddwl am y bobl neu'r sefydliadau gallant ddylanwadu, gofynnwch iddyn nhw dynnu llun neu ysgrifennu enwau'r bobl neu'r sefydliadau sydd ganddyn nhw fwyaf o ddylanwad arnynt sydd agosaf atynt. Yna, gofynnwch iddyn nhw dynnu llun neu ysgrifennu enwau'r bobl neu'r sefydliadau y mae ganddyn nhw lai o ddylanwad arynyt tuag at ymyl y cylch.**

   **Er enghraifft: Efallai y bydd gan bobl ifanc sy'n mynychu'r eglwys/capel lleol rywfaint o ddylanwad yno. Os ydyn nhw'n adnabod arweinydd yr eglwys/capel a'r teuluoedd eraill sy'n mynychu'r eglwys/capel, gallai eu gallu i ddylanwadu fod yn fwy (ac felly'n agosach at ganol y cylch). Mae gan bobl ifanc sy'n siopa yn Sainsburys, Asda neu Lidl gyda'u teulu rywfaint o lais yn ôl y dewisiadau a wnânt yn eu siopa, ond gan nad oes ganddynt berthynas personol â'r siop, gellir gosod hyn ar ymyl y cylch.**

3. **Gan ddefnyddio'r nodiadau i'w trafod, siaradwch am y gwahanol lefelau o lywodraeth yn y DU.**

### Nodiadau i'w trafod:

Yn y DU, mae gennym wahanol lefelau o lywodraeth: y Llywodraeth Ganolog, y Senedd, llywodraethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a llywodraethau lleol. Mae gan bob lefel o lywodraeth gyfrifoldebau a all ddylanwadu ar newid hinsawdd – o'r lefel leol iawn hyd at y penderfyniadau mawr a wneir gan Lywodraeth Ganolog.

Mae'n ddefnyddiol iawn deall lefelau llywodraeth os ydych chi am feddwl pwy y gallech chi ofyn am newid. Mae pobl fel arfer yn dechrau gyda'r Prif Weinidog, ond gallwch chi ddylanwadu ar eich penderfynwyr lleol – eich AS a'ch cynghorwyr – hefyd. Helpwch ddisgyblion i ddeall y gwahanol lefelau o lywodraeth a'r rôl y mae pob un yn ei chwarae.

**Llywodraeth Ganolog:**
Mae'r Llywodraeth Ganolog (y Prif Weinidog a'i aelodau cabinet) yn gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch sut mae'r wlad yn cael ei rhedeg. Maen nhw'n gosod trethi, yn dewis beth i wario arian cyhoeddus arno, ac yn penderfynu ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, fel:

- y Gwasanaeth Iechyd (yn Lloegr)
- yr heddlu a'r lluoedd arfog
- budd-daliadau lles fel Pensiwn y Wladwriaeth
- cyflenwad ynni'r DU

**Senedd San Steffan:**
Mae'r Senedd yn cynrychioli buddiannau pobl y DU i sicrhau bod ein buddiannau'n cael eu hystyried gan y Llywodraeth. Ni all y Llywodraeth wneud deddfau newydd na chodi trethi newydd heb gytundeb y Senedd.

# Gweithgaredd 3 (parhad)
## Mapio Dylanwad

Mae pawb dros 18 oed yn y Deyrnas Unedig yn cael dewis pwy sy'n eu cynrychioli yn y Senedd trwy bleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn atebol i bawb yn yr ardal y maen nhw'n eu cynrychioli, gan gynnwys plant.

Mae llawer o bwerau'r llywodraeth wedi'u dirprwyo i'r sefydliadau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

**Senedd Cymru:**
Mae Senedd Cymru yn deddfu, gosod trethi ac yn goruchwylio gwaith Llywodraeth Cymru.

Datganoli yw'r broses barhaus o drosglwyddo pŵer o lefel y DU i lefel Cymru neu leol. Mae dosbarthiad y pwerau hyn wedi esblygu dros amser, ac mae'n newid o ganlyniad i ddeddfwriaeth yn San Steffan a Chymru.

Dosberthir pwerau a chyfrifoldebau yng Nghymru ar dair lefel: y Senedd a Llywodraeth Cymru ar lefel Cymru; Senedd y DU a Llywodraeth y DU ar lefel y DU; a chynghorau (Awdurdodau Lleol) ar lefel leol.

**Senedd yr Alban:**
Senedd yr Alban yw deddfwrfa ddatganoledig yr Alban. Mae gan y Senedd bwerau a ddatganolwyd iddi gan Senedd y DU i ddeddfu mewn sawl maes heblaw'r rhai a gedwir yn Senedd y DU. Yng nghyd-destun newid hinsawdd, pŵer datganoledig yw hwn, felly mae gan yr Alban ei Deddf Newid Hinsawdd a'i thargedau ei hun i leihau allyriadau. Caniateir i unrhyw un dros 16 oed bleidleisio yn Etholiadau'r Alban.

**Llywodraeth Leol:**
Mae cynghorau plwyf a thref yn delio â materion lleol iawn fel rhandiroedd a rhai mannau gwyrdd. Mae cynghorau dosbarth a chynghorau sir yn gyfrifol am bethau fel addysg, priffyrdd, cynllunio trafnidiaeth, cludo teithwyr, gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd, gwaredu gwastraff a chynllunio strategol. Mae pleidleiswyr hefyd yn dewis cynghorwyr lleol.

# Gweithgaredd 4
## Crefftu'r neges (Rhan 1)

### Pwrpas:

Mae disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd ystyried buddiannau'r bobl y maent yn ceisio eu dylanwadu a chreu strategaeth i lunio eu neges ar gyfer newid.

1. **Gwahoddwch ddisgyblion i rannu'n grwpiau bach o dri neu bedwar. Esboniwch mai eu tasg yw eich argyhoeddi i wneud tasg neu weithgaredd damcaniaethol (e.e. gadael iddyn nhw fynd allan i egwyl yn gynnar).**
2. **Rhowch bum munud i'r grwpiau siarad am sut y byddant yn eich perswadio, a chytuno ar eu strategaeth. Gall grwpiau fod mor greadigol ag y dymunant.**
3. **Pan fydd amser wedi'i gwblhau, rhowch amser i bob grŵp ddefnyddio eu strategaeth er mwyn eich argyhoeddi. Bydd disgyblion llwyddiannus wedi meddwl beth yw eich diddordebau a'ch blaenoriaethau ac wedi gosod y rhain ochr yn ochr gyda'u hamcanion.**

### Nodiadau i'w trafod:

Nid mater o ofyn am yr hyn rydych chi ei eisiau yn ddigon parhaus yw achosi newid. Mae 'cyflawni newid' hefyd yn gofyn am geisio deall cymhellion a diddordebau'r rhai ar 'yr ochr arall' a darganfod ffyrdd o ddod o hyd i ddiddordeb cyffredin wrth gyflawni eich amcanion.

# Gweithgaredd 5
# Crefftu'r neges (Rhan 2)

## Pwrpas:

Mae disgyblion yn archwilio pwysigrwydd siarad am gyfiawnder hinsawdd ac yn gallu meddwl am wahanol ffyrdd o addasu'r cyfathrebu pan fod angen.

**AWGRYM: Am fwy o gefnogaeth, ewch i climateoutreach.org**

1. **Ar gyfer disgyblion uwchradd, dechreuwch trwy rannu'r fideo 'How do you change someone's mind' ar YouTube.**

2. **Rhannwch y dosbarth mewn grwpiau (tua phedwar disgybl). Gwahoddwch bob grŵp i ddewis cyfrwng o'r rhestr isod lle byddant yn creu ac yn rhannu neges sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder hinsawdd. Efallai y byddwch hefyd yn herio'r bobl ifanc i feddwl am gyfrwng amgen creadigol.**

- **Taflen wybodaeth ar gyfer cyd-ddisgyblion yn yr Ysgol**
- **Poster / hysbyseb gwybodaeth ar gyfer arhosfan bysiau**
- **Instagram / cyfryngau cymdeithasol (os yw'r disgyblion yn hŷn)**
- **Gwybodaeth ar gyfer papur newydd**

3. **Gwahoddwch ddisgyblion i greu a rhannu neges sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder hinsawdd, gan ystyried y cwestiynau isod. Efallai yr hoffech ddod o hyd i rai enghreifftiau ar gyfer pob grŵp i'w helpu i ystyried y ffyrdd y gallent greu eu negeseuon. Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynegi i'r disgyblion nad oes rhaid i grwpiau gyfathrebu yn yr un ffordd, ac anogwch nhw i fod yn greadigol. Serch hynny, beth bynnag maen nhw'n ei ddewis, mae angen iddyn nhw allu egluro pam eu bod wedi dewis cyfleu'r ffordd y gwnaethon nhw.**

**Cwestiynau i'w hystyried:**

- **Pwy yw'r gynulleidfa?**
- **Beth allai eu diddordeb yng nghyfiawnder hinsawdd fod?**
- **Beth maen nhw'n gwybod yn barod?**
- **Beth nad ydyn nhw'n gwybod fod angen iddyn nhw wybod?**
- **Beth ydych chi eisiau nhw wneud?**
- **Beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu'r wybodaeth?**

## Nodiadau Athrawon:

**Ar gyfer ysgolion cynradd:**
Gwyliwch y fideo ar gyfer myfyrwyr uwchradd er mwyn deall y cyd-destun, yna defnyddiwch yr esboniad symlach isod i'w rannu gyda'ch disgyblion iau.

Esboniwch fod achosi newid yn gofyn bod pobl eraill yn ymuno â ni, ond weithiau ni fydd pawb yn cytuno â'n safbwyntiau / credoau / neu'r pethau rydyn ni'n eu hadnabod – hyd yn oed os ydyn nhw'n ffaith! Yn aml, ni fydd pobl yn newid eu meddyliau hyd yn oed gyda'r ffeithiau. Mae hynny'n golygu bod rhaid i ni ystyried sut rydyn ni'n siarad â phobl mewn ffordd a allai ddylanwadu arnyn nhw i newid eu meddyliau a gweld pethau fel rydyn ni'n eu gwneud.

Er mwyn helpu i gyfleu pwysigrwydd gweithredu ynglŷn â'r hinsawdd, dylem ystyried yr hyn y mae ein cynulleidfa (y bobl rydyn ni'n siarad gyda) yn ei gredu, gyda phwy maen nhw'n ymddiried a beth maen nhw'n ei werthfawrogi.

Oes modd dechrau eich dadl ar rywbeth rydych chi'n gwybod bod y ddau ohonoch chi'n cytuno? A allwch chi ddod o hyd i wybodaeth a rennir gan bobl y maent yn ymddiried ynddynt? A allwch chi gysylltu'r mater rydych chi'n poeni amdano â rhywbeth maen nhw'n ei werthfawrogi – er enghraifft efallai eu bod nhw'n gwerthfawrogi pwysigrwydd pobl yn cael cartrefi diogel, neu efallai eu bod nhw'n credu bod dod â digartrefedd i ben yn bwysig. Gallwn gysylltu'r syniadau a'r credoau hyn â chyfiawnder hinsawdd er mwyn ei gwneud hi'n haws siarad amdano.

# **Gweithgaredd 6**
# Salad Ffrwythau Ymgyrchu

## Pwrpas:

Mae disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd cymeriad wrth greu byd mwy cariadus a mwy cyfiawn, ac yn ystyried y nodweddion y byddent yn dewis eu cyfrannu at ein gweithred.

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i seilio ar y ddysgeidiaeth Gristnogol am Ffrwythau'r Ysbryd (Galatiaid 5: 22-23), darn Beiblaidd sy'n sôn am nodweddion y dylai Cristnogion fod yn dangos yn eu bywydau trwy'r Ysbryd Glân fel bod yn gariadus at eraill.

*Ond dyma'r ffrwyth mae'r Ysbryd Glân yn ei dyfu yn ein bywydau ni: cariad, llawenydd, heddwch dwfn, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth. Galatiaid 5: 22-23*

1. **Esboniwch i'r dosbarth nad yw achosi newid yn ymwneud yn unig â'r hyn rydyn ni am ei weld yn digwydd. Mae hefyd yn bwysig gofyn i ni'n hunain, pa fath o bobl rydyn ni am fod, a pha fath o nodweddion rydyn ni am eu dangos wrth i ni siarad a gweithredu'n broffwydol i wneud y byd yn lle gwell.**

2. **Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am y cwestiynau hyn:**

- **Os ydym am i'n byd fod yn anneilltuol, sut mae dangos hynny trwy ein hymgyrchu?**
- **Os ydym am i'n byd fod yn deg, sut ydyn ni dangos tegwch yn ein hymgyrchu?**

3. **Darllenwch trwy Galatiaid 5: 22-23. Fel grŵp, ystyriwch a thrafodwch ystyr pob nodwedd, a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.**

4. **Ar ôl i chi gynhyrchu cyd-ddealltwriaeth o bob nodwedd, gofynnwch i'r disgyblion drafod mewn grwpiau bach pa nodwedd y maent yn credu y byddai'n bwysig ei chynnwys ar gyfer creu'r 'salad ffrwythau' y mae angen iddynt ymgyrchu dros gyfiawnder hinsawdd. Nesaf, gofynnwch i grwpiau bach drafod a oes unrhyw nodweddion ar goll ar gyfer eu salad ffrwythau ymgyrchu, a pham.**

5. **Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno eu syniadau. Yna, fel dosbarth, dewch i gytundeb ynghylch y math o nodweddion rydych chi am eu dangos trwoch chi wrth archwilio materion cyfiawnder byd-eang a dechrau ymarfer eich lleisiau gyda'ch gilydd.**

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851. Rhif Cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. Argraffwyd yn llwyr ar ddeunydd wedi tarddu o fforestydd a reolir yn gyfrifol. © Cymorth Cristnogol Hydref 2021. J248565